OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 836 (Cy. 210)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gwnaed - - - -	*5 Awst 2016*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Awst 2016*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 108(2)(b)(iii) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) (Diwygio) 2016 a daw i rym ar 1 Medi 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2. Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn erthygl 3—

(i) yn lle'r diffiniad o "sgiliau cryno a llawn" rhodder—

"ystyr "sgiliau'r proffil cryno" ("*compact profile skills*") yw'r sgiliau hynny a nodir yn y tablau ar dudalennau'r llawlyfr proffil sydd â'r pennawd "(proffil cryno)" mewn perthynas â phob un o'r meysydd dysgu.";

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd is-adran (2) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Diwygiwyd is-adran (3) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(b) o Fesur Addysg (Cymru) 2009. Mewnosodwyd cyfeiriadau at "the Welsh Ministers" ("*Gweinidogion Cymru*") yn adrannau 108 a 210 gan adran 47 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1), a pharagraffau 11 a 15 o'r Atodlen iddo.

(**2**) O.S. 2015/1596 (Cy. 195).